Clecs Casnewydd

Rhifyn rhif 3

Tymor yr Haf 2013

20 blwyddyn

Mae e Fel Ffair 'ma!

Helo a chroeso i rifyn olaf 'Clecs Casnewydd' am y flwyddyn ysgol yma! Am dymor brysur a chyffrous! Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd y ffair haf.

Wrth gwrs roedd ffair eleni yn arbennig iawn gan fod Ysgol Gymraeg Casnewydd yn dathlu ei 20fed penblwydd. O ganlyniad dechreuodd paratoadau ar gyfer y ffair yn gynnar eleni wrth i bob disgybl addurno triongl unigol gyda'i hoff bethau i wneud yn yr ysgol. Cafodd y trionglau eu gwinio gyda'u gilydd i greu baneri lliwgar i addurno'r stondinau a'r neuadd. Hoffwn rhoi diolch arbennig i Beth Davies, Sally-Ann Mellor, Joyce Hiscox, Bethan Willicombe, Simone Hughes a Mandy Evans am eu holl waith caled yn gwinio'r baneri.

Roedd y ffair yn llawn stondinau hwyl yn gwerthi llyfrau, teganau a llawer o fwyd blasus! Roedd nifer o gemau hwyl i chwarae a chastell neidio hefyd! Roedd stondinau peintio gwynebau a thatw! Roedd sawl ymwelydd arbennig hefyd! Daeth Sali Mali a Heini i ddawnsio, canu a chwarae gemau gyda'r plant. Cafodd pawb cyfle i ddal tylluanod ac adar eraill wrth i 'Steve and Deb's Hawkes and owls' dod i ymuno â'r parti!

Cafwyd perfformaiadau gwych gan gôr a thîm jimnasteg yr ysgol. Perfformiodd y grwpiau dawnsio disgo a chreadigol eu dawnsfeydd o gystadleuaeth yr Eisteddfod i ni gael mwynhau. Cafwyd cerddoriaeth o gerddorfa'r ysgol a dangosodd y tîm pêl droed eu sgiliau gwych ar y cae.

Unwaith eto eleni roedd stondin blwyddyn 6 yn boblogaidd iawn! Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn casglu cynnyrch o erddi'r ysgol ac yn paratoi jam a marmalêd i werthu ar y stondin. Roedd danteithion blasus i fwynhau hefyd wrth i'r disgyblion gweithio'n galed i bobi cacennau a bisgedi i werthu! Bu'r holl waith caled o fudd wrth i'r stonin casglu £160.

Codwyd y ffair dros £2000 i gyd. Diolch enfawr i'r CRhA am drefnu diwrnod mor hwylus. Diolch i'r rhieni a'r staff wnaeth helpu ac i bawb a ddaeth ar y diwrnod. Gobeithio wnaethoch chi fwynhau.

Pobl Sy'n ein Helpu

Meithrin

Yn ystod Tymor yr haf mae plant Meithrin Sali Mali wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am swyddi gwahanol. Rydyn ni wedi edrych ar waith y peiriannydd, yr heddlu, y brigad tan a'r meddyg a'r nyrs. Clywodd y dynion tan am ein waith arbennig a phenderfynon nhw i ymweld â'r ysgol. Cafon ni cyfle i ymarfer defnyddio'r pibell dwr, a hyd yn oed i eistedd mewn injan dân go iawn!!!

Io ho ho!

Derbyn

Cafodd y Derbyn eu hymosod gan fôr ladron! Cafon nhw llythyr i ddweud fod trysor wedi eu cuddio yn yr ysgol yn rhywle felly roedd yn rhaid iddyn nhw fynd ar helfa drysor trwy'r ysgol, y waun wyllt a'r ardal ganol gan ddilyn cliwiau ac yn y diwedd fe ddaethon nhw o hyd i gust llawn arian siocled yn y tywod! Roedd llawer o dasgiau i'w cwblhau fel adeiladu llong môr ladron, ysgrifennu llythyr mewn potel, peintio parot, creu map ac addurno trysor. Ac ar ol cwblhau'r tasgiau cafodd y derbyn parti môr ladron ac fe wisgodd pawb i fyny i ddathlu.

Ditectifs Hanes

Blwyddyn 1

Mae Blwyddyn Un wedi mwynhau tymor cyffrous yn dysgu am yr ardal leol. Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur iawn yn paratoi mapiau fel bod ymwelwyr Casnewydd yn medru darganfod tirnodau enwog megis y bont Trawsgludo a'r Don haearn. Mae'r disgyblion wedi bod yn annog twristiaid i'r ardal wrth greu posteri lliwgar yn hysbysebu'r holl bethau mae pobl yn gallu gwneud yng Nghasnewydd megis chwarae golff yng ngwesty'r Celtic Manor. Cafodd y disgyblion cyfle i brofi un o'r atyniadau yma wrth ymweld ag amgueddfa Casnewydd. Cawson ni'r cyfle i ddysgu am hanes Casnewydd a mynd ar helfa arteffactau o gwmpas yr amgueddfa i wneud ddarganfodau diddorol ac iasol gan gynnwys mymi ac esgyrn sgerbwd!!

Byw yn yr ardd!

Blwyddyn 2

Mae gwenyn bach blwyddyn 2 wedi bod wrthi yn dysgu am amrywiaeth o bethau yn yr ardd yn ystod y tymor hwn. Cafodd y plant gyfle i blannu blodyn haul a chynllunio ymchwiliad i ddarganfod sut i blannu blodyn haul. Yn ogystal a ymchwilio i'r ochr wyddonol, ysgrifennodd y plant ymson o safbwynt y blodyn haul. Roedd eu gwaith yn fywiog ac yn ddychmygus. Cafodd y plant eu hysbrydoli gan waith celf Vincent Van Gogh ar flodau haul ac wedi efelychu'r gwaith.

Ymweliad y Ffwred!

Blwyddyn 3

Wythnos diwethaf cafodd blwyddyn 3 ymwelwyr arbennig – 3 ffures o'r enw Sophie (y fam) a'u plant Rosie a Chubby. Roedden ni wedi paratoi cwestiynau ymlaen llaw er mwyn darganfod mwy o wybodaeth amdanynt. Dysgon ni lawer o ffeithiau newydd sef eu bod dim ond yn bwyta cig a felly eu bod nhw'n gigysyddion. Mae'n debyg eu bod hyd yn oed yn bwyta bisgedi sy'n cynnwys cig ynddynt! Roedd pawb yn gyffrous i gwrdd â nhw a hoffem ddiolch yn fawr i Mr Dunn am ddod â hwy i'r ysgol.

CYFFRO YN Y GOEDWIG

Blwyddyn 4

Yn ystod y tymor, aeth blwyddyn 4 am dro i Goedwig Goytre. Aethon nhw i ddarganfod mwy am greaduriaid bach a mawr sy'n byw yn y goedwig. Roedd yr arweinydd, Miss Haf Leyshon wedi trefnu gweithgareddau cyffrous ac addysgol yr oedd yn helpu'r plant i ddeall mwy am ddirgelwch y goedwig. Dywedodd Cai Hobbis "Roeddwn i wedi mwynhau adeiladu cartref i'r draenog gyda brigau a dail. Dysgais fod cuddliw yn holl bwysig". Yn y prynhawn, chwaraeodd y plant yn hapus gyda eu ffrind newydd 'Roxy y ci'. Roedd hi'n ddiwrnod i gofio!

Gweithwyr Diwyd!

Blwyddyn 5

Ym Mlwyddyn 5 rydyn ni wedi dechrau busnes anhygoel i helpu a chodi arian ar gyfer hen wyr y coed! Rydyn ni wedi dechrau cynllunio syniadau am beth i werthu i godi yr arian. Rydyn ni yn coginio pethau hyfryd, creu posteri a gemwaith ffandabidosi, dalen nodyn ac hyd yn oed yn creu hysbyseb anhygoel dros ben! Mae'r tim TGCH wedi dechrau creu y logo sydd wedi cael ei cynllunio gan 5 o ferched sef Jasmine BB, Evie H,
Mia R, Molly L ac Ellie-Mai. Diolch ferched! ☺

Nôl i'r Dyfodol!

Blwyddyn 6

Rydyn ni wedi bod yn mynd trwy hanes i'r 1940au, 1980au ac i 1993! Fel rhan o'n prosiect hanes rydyn ni wedi astudio'r Ail Ryfel Byd a sut roedd pobl yn byw yn ystod y cyfnod yma. Aethon ni i Amgueddfa Bae Abertawe 1940 i gael dealltwriaeth gwych o'r cyfnod. Roedd yn ddiwrnod gwych llawn cysgodfannau, tai wedi'u bomio a gwisgo mewn gwisgoedd y cyfnod. Aethom ati i greu'r un awyrgylch yn yr ysgol gyaa diwrnod 40au Roedd yr 1980 yn llawn protest – S4C, streic y glowyr, protestio yn erbyn apartheid a rhyddhau Nelson Mandela a'r menywod Greenham Common i CND a'r diwedd i arfau niwcliar. Atgyfnerthwyd y dysgu gyda diwnrod yr 80au ble dathlwyd cwymp wal Berlin. Mae ein sioe eleni yn seiliedig ar 1993 oherwydd dyma blwyddyn gyntaf Ysgol Gymraeg Casnewydd. Mae'n ddathliad o gerddoriaeth a digwyddiadau 1993 ond gan nad oedd We neu xbox, roedden ni'n hapus iawn i ddychwelyd i 2013!!!

Hwyl Fawr Blwyddyn 6!

Byddwn yn drist iawn i ffarwelio â Blwyddyn 6 a dymunwn bob lwc i bawb wrth iddynt symud i Ysgol Gyfun Gwynllyw a Dyffryn. Mae rhai o'r disgyblion wedi paratoi eu hatgofion o'u hamser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd yn arbennig ar gyfer ein rhifyn olaf.

Rydw i'n cofio pan roeddwn i wedi cario fflam yr ysgol ar ddiwrnod y mabolgampau.
Megan Shergold

Ym mlwyddyn 1 rydw i'n cofio mynd i'r traeth gyda'r dosbarth. Rebecca Ryan

Un o fy hoff atgofion i oedd y gwersi gwyddoniaeth am fy mod i'n hoffi torri blodau.
Connor Edmunds

Un o fy hoff atgofion i oedd gwneud y conga yn y ras hir ym mabolgampau yr ysgol.
Connor Bowen Downs

Roeddwn i wedi mwynhau canwio yn Gilwern oherwydd roedd pawb yn meddwl eu bod nhw yn mynd i gwympo i fewn i'r camlas. Gethin Marshall

Fy hoff atgof i ydy ennill yn erbyn timoedd gorau Cymru yn Llanelli a derbyn y darian enfawr.
Harri Lloyd Evans a Ieuan Jones

Anghofiaf i fyth y dydd [an gerddais i fewn i'r ysgol a chwrdd gyda fy ffrinidiau ac athrawon arbennig. Byddaf byth yn anghofio fy ffrindiau a'r atgofion arbennig ges i. Jasmine

Fy hoff atgof i oedd gwneud ffrindiau wrth chwaraeyn y jeli yn y derbyn. Diolch x Cadi

Fy hoff atgof i oedd mynd i Langrannog oherwydd dysgais i farchogaeth ceffyl a gyrru cwad. Diolch athrawon. Lewis Bates

Rydw i'n cofio mynd i'r cwtch a'r ysgol goedwig. Kira

Fy hoff atgof i oedd yr ymweliadau oherwydd roedd cymaint o weithgareddau hwylus i'w wneud. Hefyd, roedd yr athrawon yn cael gwen are u gwynebau bob tro. Megan McGill

Fy hoff atgof i oedd mynd i'r gerddi gyda Mr Comfort a dysgu pethau newydd am ffrwythau a llysiau. Molly Harmes

Un o fy hoff atgofion i oedd mynd ar ymweliad i weld y Rufeiniaid. Roedden nhw yn gwneud ffilm ac roedd un o nhw wedi neidio allan yn gyflym ag ofni ni. Abigail Corten

Rydw i'n cofio ennill y gadair ym mlwyddyn 6, rydw i dal yn gallu teimlo'r pili-[ala yn fy mol.
Luca Hoole

Un o fy hoff atgofion i oedd y diwrnod oren pan roedd rhaid i ni wisgo oren trwy'r dydd ac fe gasglon ni digon o arian i fabwysiadu 4 hen wyr y coed hyfryd. Erin Roberts

Fy hoff atgof i oedd pan daeth mam i mewn i'r ysgol i wneud samba gyda ni. Nawr rydw i eisiau mynd i Brazil i glywed 'samba' gorau'r byd. Gideon

Active Mark

Llongyfarchiadau enfawr i Ysgol Gymraeg Casnewydd am ennill gwobr 'Active Mark'! Mae'r wobr yn cael ei rhoi i ysgolion sydd yn dangos arfer dda yn Addysg Gorfforol. Mae'r staff a'r disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed iawn i wella eu sgiliau addysg gorfforol gan gymryd rhan yng ngwersi ymarfer corff yn wythnosol. Mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn mynychu clwb rhedeg a thenis yn ystod yr awr ginio. Mae disgyblion cyfnod allweddol dau hefyd wedi cael y cyfle i ymaelodi â chlybiau athletau, rygbi, pêl rhwyd, a chriced ar ôl ysgol. Da iawn pawb a diolch i Mr Taylor a'r holl staff sydd yn helpu i redeg y clybiau am eu waith caled.

Ysgol Goedwig.

Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn datblygu ein Gwaun wyllt y tymor yma ac mae nifer o weithgareddau cyffrous wedi digwydd yn ddiweddar! Mae rhai o'n disgyblion wedi bod yn defnyddio offer i greu llwybrau trwy'r waun wyllt.

Os dilynwch chi'r llwybrau efallai byddwch yn dod o hyd i un o'r ffeuau mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn adeiladu. Bydd ffau yn lle da i guddio os dewch chi ar draws un o'r bwystfilod mwdlyd maent wedi creu! Mae mwynhau'r holl weithgareddau yn creu plantos llwglyd! Lwcus felly bod modd creu tân yng nghanol y cylch boncyff i dostio bara a choginio'smores blasus.

Writing squad!

Llongyfarchiadau i Kayleigh Brown o Flwyddyn 6 am gael ei dewis fel aelod o riting Squad Casnewydd eleni. Mae athrawon yn danfon esiamplau o waith plant sy'n dangos dawn arbennig wrth ysgrifennu Saesneg. Ceisiodd dros gant am y cyfle, ond dim ond ugain oedd wedi cael eu dewis. Mae Kayleigh wir wedi mwynhau'r cyfle. Da iawn ti!!!

1940au a'r 1980au

Gwisgodd Blwyddyn 6 mewn gwisgoedd o'r ddau gyfnod yma ar ddiwrnodau gwahanol. Gan gofio problemau Dogni bwyd yn yr 1940au, fe goginion ni cacennau tatws a bisgedi gyda brechdanau spam ac eidion 'corn' a diodydd Dantyllew a Burdock. Gorffenon ni'n diwrnod gyda parti VE i ddathlu diwedd y rhyfel a mabolgampau traddodiadol gyda ras wy ar lwy a sachau. Roedd yr 1980au yn wahanol iawn. Roedd yna LLAWER o neon a chwistrellydd gwallt!!! Rhannwyd Blwyddyn 6 gan y Wal Berlin ac roedd rheolau llym iawn i'r rheina oedd yn y dwyrain. Diolch byth, daeth y wal i lawr yn 1989 ac felly cafodd ffrindiau eu uno unwaith eto. Dathlwyd gyda parti o gerddoriaeth yr 80au, angel delight, losin, creision, rholiau selsig a phop. Am atgofion anhygoel!

Wiwer Helyg!

Roedd y Cyngor Eco yn brysur wrth helpu creu darn o gelf naturiol i'n gerddi. Daeth 'The Willow Company' gyda help Natalie Waller i ddangos sut i dorri a phlygu helyg o'n coed i greu wiwer. Roedd Blwyddyn 5 yn hapus iawn gan eu bod nhw'n astudio llyfr 'Scaredy Squirrel' ac yn creu llyfryn ffeithiol am wiwerod. Mae pawb wedi eu cyffroi fel ***cnau*** drosto!!!

Cornel y Campau

Athletwyr Ardderchog

Unwaith eto mae ein hysgol wedi Dangos dawn mewn cystadleuaeth chwaraeon. Y tro hyn cystadlodd y tim athletau o Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn Nhwrnament Athletau'r Urdd yn Stadiwm Cwmbran.
Enillon ni Tarian y Twrnament!!
Diolch i staff a'r plant a aeth yn enwedig i Mr Taylor am yr holl Hyfforddi a threfnu.

Yn ogystal i hyn, aeth ein tim pêl-droed i gystadlu yn Nhwrnament Llanwern. Cyrhaeddon ni'r gêm derfynol ond colli i Ysgol Lliswerry. Da iawn bois!!!
Ac yn olaf, roedden ni'n gallu cynnal y tri Mabolgampau amrywiol heb unrhyw newid

Oherwydd diwrnodau glawiog am y tro gyntaf mewn blynyddoedd!! Fe aeth y tri digwyddiad yn wych wrth i'r plant cydweithio i ennill pwyntiau i'r llysoedd.
Diolch i bawb â ddaeth i gefnogi.

Once again thank you to the PTA for providing to enable us to produce this newspaper and for organising the many activities throughout the term. If anybody would like to become a member of the PTA, registration forms are available in the office.